




Creu Gwent Iachach

Mae anghydraddoldebau iechyd eang yn parhau i fodoli yng Ngwent. Hoffwn gael sgwrs gyda'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngwent ynglŷn â'r hyn y byddai cyflawni'r uchelgais o **Creu Gwent Iachach** yn ei olygu iddyn hwy. Drwy ein sgwrs, rwy'n gobeithio y byddwn yn datblygu uchelgais ac ymrwymiad a rennir y gallwn, gyda'n gilydd, **Creu Gwent Iachach**.

% o fywyd a dreulir mewn iechyd 'da'



Fynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016

I greu amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant holl boblogaeth Gwent mae angen i bob un ohonom chwarae ein rhan.




Dr Sarah Aitken

Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Phartneriaethau Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Tim Iechyd Cyhoeddus
Aneurin Bevan Gwent
Aneurin Bevan Gwent
Public Health Team



YR UCHELAIS AR GYFER GWENT 2030

Yn 2030 mae'r mannau lle'r ydym yn byw, yn gweithio, yn dysgu ac yn chwarae yn ei gwneud yn haws i bobl yn ein cymunedau fyw bywydau iach a chyflawn.

Mae pob un o'n plant a'n pobl ifanc yn byw mewn amgylcheddau di-fwg ac yn ystyried mai peidio ag ysmygu yw'r norm. Mae mwy o'n plant a'n pobl ifanc yn byw mewn amgylchedd sy'n cefnogi bod yn bwysau iach. Mae gennym gymunedau bywiog a chysylltiedig gyda phobl yn ffafrio cerdded a beicio ar gyfer teithiau lleol. Mae teuluoedd a phlant yn weithgar yn ein mannau agored a rennir ac yn gwneud y gorau o'n hamgylchedd naturiol, toreithiog.

Rydym yn byw, yn dysgu ac yn gweithio mewn cymunedau cryf a chydnerth sy'n cefnogi ei gilydd - a hynny'n rhai real a rhithwir. Rydym yn cymryd camau pendant i wella llesiant meddyliol am ein bod yn deall nad oes unrhyw iechyd heb iechyd meddwl da.

Mae pob partner yn canolbwyntio ei ymdrechion ar y cyd ar y prif bethau sy'n creu mwy o degwch, ac rydym yn dechrau gweld mwy o degwch o ran penderfynyddion iechyd. Mae **Creu Gwent Iachach** wrth wraidd yr hyn y mae pob un ohonom yn ei wneud.



Mae Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd (2019) **'Creu Gwent Iachach'** yn nodi'r uchelgais a'r heriau iechyd allweddol y mae angen i ni fynd i'r afael â hwy ar gyfer Gwent Iachach erbyn 2030.


YR HER

Mae pobl mewn rhai cymunedau yng Ngwent yn byw mwy o'u bywyd mewn iechyd da ac yn byw'n hirach nag mewn cymunedau eraill yng Ngwent

Ymhlith y prif glefydau sy'n achosi i bobl beidio â bod mewn iechyd da mae: clefydau cardiofasgwlaidd, cancer a chlefydau anadlol.


Gellir priodoli'r broses o ddatblygu canran fawr o'r clefydau hyn i ffactorau risg y gellir eu hosgoi, ac egluro'r rhan fwyaf o'r gwahaniaethau iechyd a welwn ar draws poblogaeth Gwent.

Canran 3 salwch mawr y gellir ei gysylltu â ffactorau risg



Ffynhonnell: Addaswyd o Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio Global Health Data Exchange (IHME)²

Canran cyfraniad ffactorau risg i 3 salwch mawr




Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio Global Health Data Exchange (IHME)²

GALLWN EI GYFLAWN!

Mae ystod eang o ffactorau yn dylanwadu ar iechyd unigolyn gan gynnwys yr amgylchedd cymdeithasol, economaidd a ffisegol. Mae 3 thema i **Creu Gwent Iachach**:

- Cartrefi, lleoedd a mannau iach
- Cymunedau iach
- Gwasanaethau hybu iechyd



Ffynhonnell: addaswyd o Dahlgren a Whitehead, 1991¹

CYMERWCH RAN!

Ymunwch â'r sgwrs ynglŷn â sut y gallwn **Creu Gwent Iachach** gyda'n gilydd.

Ewch i un o'r digwyddiadau ymgysylltu i'r cyhoedd a phartneriaid sy'n cael eu cynnal ar draws Gwent rhwng Awst a Hydref 2019.

NEU

Llenwch yr arolwg ar-lein erbyn Hydref 20^{fed}.

Cysylltwch â ni neu ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth
www.wales.nhs.uk/HealthierGwent

E-bost: AdminVH_ABGPHT@wales.nhs.uk

Ffôn: 01633 261448

